CANOLFAN ARWEINIOL CYMRAEG I OEDOLION GOGLEDD CYMRU

Cyfarfod darparwyr y dalgylch

Coleg Llandrillo: Dydd Llun, 10 Gorffennaf 2006. 9.30

Yn bresennol:

Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn:	Eleri Williams
Coleg Glannau Dyfrdwy:	Non Lewis
Coleg Iâl:	Jeni Harris
Coleg Llandrillo:	Ieuan Davies
	Rhian McCarthy
Coleg Llysfasi:	Myfi Brier
	Gwenan Owain
Coleg Meirion-Dwyfor:	Jina Gwyrfai
Coleg Menai:	Ann Hughes
Cymdeithas Addysg y Gweithwyr/Coleg Harlech:	Llinos Price
NEWI:	Michelle Murphy
Popeth Cymraeg:	Howard Edwards
	Frances Jones
	Verona Pritchard-Jones
	Ioan Talfryn
Prifysgol Cymru Aberystwyth (sylwebydd):	Shirley Williams
Prifysgol Cymru Bangor:	Elwyn Hughes

1. Cafwyd cyflwyniad byr gan bob darparwr ar natur eu rhaglen gyfredol er mwyn cael darlun o faint ac amrywiaeth y ddarpariaeth bresennol.

2. Nodwyd amcanion cynllun y Canolfannau Iaith fel y maent wedi'u hamlinellu gan Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'r Cynulliad Cenedlaethol (DELLS), a rhoddwyd braslun o'r datblygiadau hyd yma. Adroddwyd bod cyfarfod wedi'i gynnal ar gyfer yr Uwch-Reolwyr ar 16 Mai a chafwyd crynodeb o drafodaethau'r cyfarfod hwnnw. Rhoddwyd braslun o'r swyddi newydd sy wedi'u hysbysebu ar gyfer y Ganolfan Iaith (dyddiad cau: 14 Gorffennaf) a nodwyd bod cyfarfodydd cychwynnol i'w cynnal yn fuan i drafod:
   (a) cymwysterau newydd i diwtoriaid Cymraeg i Oedolion
   (b) ailfrandio a chynlluniau marchnata cenedlaethol.

3. Cafwyd trafodaeth estynedig ar anghenion, blaenoriaethau a phryderon y darparwyr o dan y drefn newydd a lluniwyd crynodeb i'w gyflwyno i bwyllgor nesaf yr Uwch-Reolwyr (Atodiad 1)

4. Nodwyd bod DELLS wedi dod i gytundeb â *learndirect* i ddarparu gwybodaeth a chyngor i ddysgwyr a darpar-ddysgwyr ynglŷn â'r cyrsiau Cymraeg i Oedolion sy'n cael eu cynnig yn eu hardal. I'r perwyl hwnnw, gofynnwyd i bob darparwr anfon copi electronig o raglen 2006-7 i Brifysgol Cymru Bangor er mwyn i'r wybodaeth gael ei throsglwyddo i *learndirect.* Hefyd, gofynnwyd i bawb fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan *learndirect* yn ofalus er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n galw yn cael gwybodaeth briodol a chyflawn.

5. Rhoddwyd gwybodaeth am y gynhadledd sydd i'w chynnal yng Nghaerdydd ar 17 ac 18 Tachwedd. Bydd y canolfannau iaith yn cael eu lansio'n ffurfiol yn ystod y gynhadledd honno, a bydd sesiynau hyfforddi a chyflwyniadau ar ddatblygiadau newydd ar y rhaglen hefyd.

6. Ar ddiwedd y cyfarfod, penderfynwyd:

   a) bod angen fforwm o'r math yma ar gyfer darparwyr fel rhan o strwythur y Ganolfan newydd. Unwaith bydd swyddogion y Ganolfan wedi'u penodi, bydd eisiau galw cyfarfod arall i sefydlu pwyllgor ffurfiol. Dylid gwahodd sefydliadau a chymdeithasau cysylltiedig, e.e. TWF, y Mentrau Iaith, Cymuned, CYD, ac ati, i fod yn aelodau o'r pwyllgor hwn. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol cael cynrychiolaeth o blith tiwtoriaid rhan-amser hefyd.

   b) bod eisiau sicrhau llwybrau cyfathrebu effeithiol rhwng y pwyllgor hwn a phwyllgor yr Uwch-Reolwyr a bod materion yn codi o gofnodion pwyllgor y darparwyr yn eitem sefydlog ar agenda'r Uwch-Reolwyr. Penderfynwyd enwebu cynrychiolydd o'r pwyllgor hwn i fynychu cyfarfodydd yr Uwch-Reolwyr. Enwebwyd Elwyn Hughes, ond gan na fydd ar gael ar 8 Medi, dyddiad cyfarfod nesaf yr Uwch-Reolwyr, cytunodd Gwenan Owain i adrodd i'r cyfarfod hwnnw ar ran y darparwyr. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol cael cynrychiolaeth o blith tiwtoriaid rhan-amser hefyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30

Atodiad 1

Cyfarfod darparwyr Cymraeg i Oedolion, 10 Gorffennaf 2006

Crynodeb o'r trafodaethau a chwestiynau a godwyd

1. Rhaid i waith y Canolfannau Iaith fod yn **ychwanegol** at yr hyn sy'n digwydd eisoes. Mae cyllid ychwanegol wedi'i glustnodi ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf, ond rhaid sicrhau bod y cyllid hwnnw'n parhau ar ôl 2008. Fel arall, fydd dim modd i amcanion y cynllun gael eu gwireddu.

2. Mae tiwtoriaid yn brin, a phrin iawn yw'r cyfleoedd i greu llwybr gyrfa ym maes Cymraeg i Oedolion. Mae angen rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn swyddi llawn amser i diwtoriaid.

3. Bydd proffesiynoli hyfforddiant i diwtoriaid yn rhan gwbl allweddol o waith y Ganolfan; yn wir, mae'n debyg mai dyma'r maes lle gall wneud y cyfraniad mwyaf arwyddocaol i wella natur ac ansawdd y ddarpariaeth bresennol. Bydd rhaid sicrhau bod cyllid ar gael i dalu costau'r tiwtoriaid sy'n mynychu hyfforddiant a'r costau sefydliadol a fydd ynghlwm wrth ryddhau staff.

4. Bydd y Ganolfan yn pennu targedau o ran cofrestriadau, cyflawniad, ac ati. A oes unrhyw berygl y bydd croestynnu rhwng targedau'r Ganolfan a thargedau'r sefydliad unigol?

5. Ar hyn o bryd, mae Cymraeg yn y Gweithle'n farchnad rydd h.y. does dim rhaid i ddarparwr barchu canllawiau'r Consortia o ran lleoliad na natur y cwrs wrth sefydlu cytundeb â chyflogwr i ddarparu cwrs mewnol i aelodau o'r staff. Beth fydd y sefyllfa o dan y drefn newydd?

6. Rhan bwysig o rôl y Ganolfan fydd blaengynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth yn ofalus ar draws y Gogledd. Pa mor rhydd fydd darparwyr unigol i ymateb i geisiadau "annisgwyl" am gyrsiau?

7. Mae gan bob darparwr weithdrefnau rheoli ansawdd mewnol. Sut bydd gweithdrefnau'r Ganolfan yn cydblethu â'r rheiny? E.e. A fydd aelodau o staff y Ganolfan yn arsylwi tiwtoriaid y gwahanol ddarparwyr? Os felly, beth fydd statws/oblygiadau'r arsylwi hwnnw ochr yn ochr â'r arsylwi mewnol? Yn sicr, bydd angen trefn ar gyfer rhannu arfer dda a chydweithio ar gynlluniau datblygu.

8. Mynegwyd nifer o bryderon ynglŷn â'r gwaith o farchnata'r ddarpariaeth:

   a) faint o farchnata fydd yn digwydd ar lefel Canolfan, a sut bydd hynny'n cydblethu â gwaith marchnata'r sefydliadau unigol?

   b) sut bydd cynlluniau marchnata cenedlaethol DELLS yn cydblethu â'r gwaith marchnata lleol? Beth fydd natur y marchnata cenedlaethol?

   c) gan nad yw'r Ganolfan yn penodi Swyddog Marchnata, pwy fydd yn gyfrifol am y gwaith marchnata? Onid oes perygl iddo gael ei esgeuluso?

9. Faint o berygl sydd y gall bodolaeth y Ganolfan danseilio'r ddarpariaeth bresennol? Mae'n hanfodol bod y sgiliau a'r arbenigedd sy wedi'u meithrin mewn gwahanol sefydliadau yn y Gogledd yn cael eu diogelu a'u datblygu ymhellach.